

# Llinell Amser Gwerthuso Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru

2021

Llywodraeth Cymru yn ein comisiynu i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Cam 1  
2021 - 2022

Cam 2  
2022 - 2024

Ein hastudiaeth **Ardal Chwilio** yn pennu cwmpas mwyaf posib yr ardal i'w hystyried.

Ein **hasesiad o Nodweddion Arbennig** yn nodi pa nodweddion y byddai gan Barc Cenedlaethol newydd ddyletswydd i'w gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo.

Ein **hasesiad Grymoedd sy'n achosi Newid** yn nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar nodweddion arbennig yr ardal, er enghraifft twristiaeth, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a newid hinsawdd.



Byddwn yn archwilio ac yn nodi'r opsiynau gorau ar gyfer rheoli'r ardal.



Rydym yn rhoi gwerth ar ein perthynas â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, a bydd gwaith ymgysylltu â nhw yn chwarae rhan bwysig wrth lywio'r broses.

Cam 3  
2024 - 2026



**Ymgynghori** ar y ffin arfaethedig.



Yr ardal yn cael ei rhannu'n **Ardaloedd Gwerthuso** ar gyfer gwaith dadansoddi a gwerthuso pellach yn erbyn y meini prawf cymhwyso.

Yr ardaloedd hynny sy'n bodloni'r meini prawf yn symud ymlaen i fod yn **Ardaloedd Potensial** sy'n llywio'r gwaith o bennu ffiniau manwl.

2026



Os caiff ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, bydd Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi.



Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn diwygio fel y bo'n briodol.

Byddwn yn cyflwyno ein hargymhelliad i Lywodraeth Cymru ac os oes digon o dystiolaeth, yn cyflwyno **Gorchymyn Dynodi**.

Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ystyried y Gorchymyn Dynodi a chadarnhau, gwrthod, neu amrywio'r Gorchymyn.

- Cam 1:** Cyn cychwyn
- Cam 2:** Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu
- Cam 3:** Y broses ddynodi statudol